

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

## Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Rheolwr Cynorthwyol Twnneli a Thechnoleg

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH
ACGChC

Yn yr ACGChC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Rheolwr Cynorthwyol Twnneli a Thechnoleg

**Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.**

**Rydym yn chwilio am Rheolwr Cynorthwyol Twnneli a Thechnoleg i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.**

**Cyflog:** PS1 (SCP 29-31) £39,862 - £41,771

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:**– Swyddfa Conwy (gweithio o'r swyddfa)

**Dyddiad cau:** 29/01/2026

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

- Mae gan ACGChC gyfle cyffrous i ymgeisydd brwdfrydig ymuno â'n tîm technoleg deinamig.
- Mae'r swydd barhaol hon yn addas iawn i unigolyn sy'n awyddus i ddatblygu ei yrfa mewn technoleg a rheoli asedau trydanol.
- Byddai'r swydd yn addas ar gyfer ymgeisydd sydd â sgiliau dadansoddi a datrys problemau cryf sy'n llawn cymhelliant ac yn gallu defnyddio ei fenter ei hun i gwblhau tasgau. Elfen allweddol o'r rôl hon yw'r gallu i graffu'n gywir ar wybodaeth megis lluniadau technegol, manylebau a thystysgrifau.
- Byddai gan yr ymgeisydd delfrydol angerdd am dechnoleg ac arloesedd. Byddent yn cefnogi cyflawni prosiectau sy'n ymwneud â defnyddio technoleg ar y rhwydwaith cefnffyrdd sy'n cynnwys datblygu cynhyrchion a gwasanaethau arloesol, rheoli adnoddau, cyllidebau a chyswllt cleient / rhanddeiliaid.
- Bydd yr ymgeisydd yn cael cyfleoedd i fod yn rhan o arferion gorau a safonau cyfredol a newydd sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio a gweithredu datrysiadau technoleg.
- Rhaid i'r ymgeisydd feddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda'r gallu i addasu arddull i weddu i'ch cynulleidfa.
- Mwynhau gweithio'n agos gyda chleientiaid ac aelodau eraill o'r tîm proffesiynol a chwarae rhan ganolog wrth ddatblygu datrysiadau sy'n rhagori ar ddisgwyliadau ein cleient.
- Dylai fod gan ymgeiswyr brofiad o weithio mewn amgylchedd cefnogol, gallu mynd i'r afael â phroblemau'n rhesymegol a defnyddio tystiolaeth i ddod o hyd i atebion neu argymhellion, bod yn gyfforddus wrth ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd, a dysgu'n gyflym sut i ddefnyddio systemau a rhyngwynebau newydd.
- Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol brofiad a dealltwriaeth o systemau rheoli asedau, gosodiadau trydanol a Thechnolegau Microsoft megis Word, Excel a PowerBI.




- Cynorthwyo'r Rheolwr Gweithredol Twnneli neu'r Rheolwr Asedau ITS a Thechnoleg Drydanol i gwrdd â gofyniad adran 58 Deddf Priffyrdd 1980 ynghylch asedau technoleg.

- Sicrhau y cwblheir yr holl archwiliadau a'r arolygon arferol a'r rhai arbenigol ar elfennau perthnasol y rhwydwaith yn unol â Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd (LCCC) LlC neu unrhyw gynlluniau mabwysiedig eraill.

- Cynnal archwiliadau arbenigol o'r isadeiledd technoleg yn ôl gofyn y Rheolwr Gweithredol Twnneli neu'r Rheolwr Asedau ITS a Thechnoleg Drydanol a diweddaru Cronfeydd Data LlC ar y cyd â'r Uned Asedau.

- Sicrhau yr ymatebir yn briodol i ddiffygion a nodir gan archwiliadau, patrolau, adroddiadau/hysbysiadau gweithredol ac ati, o fewn yr amserlenni gofynnol, gan gynnwys comisiynu, rheoli a goruchwylio gwaith brys ac unrhyw waith adweithiol arall yn ôl y gofyn gan ddefnyddio'r adnoddau Contract Cynnal a Chadw Arferol (RMC) priodol a Rhestr Gyfraddau'r Asiant.

- Monitro diogelwch y darpariaethau a'r rhagofalon a weithredir gan y sawl sy'n cyflawni unrhyw weithrediadau o fewn y rhwydwaith, gan gynnwys monitro gwaith risg uchel megis cynnal a chadw foltedd uchel a gwaith mewn Mannau Cyfyng a chynorthwyo i reoli pob agwedd dechnoleg ar y rhwydwaith cefnffyrdd perthnasol.

- Cyfrifol am oruchwylio rhaglenni gweithgareddau cynnal a chadw arferol ac asesu cyflwr a gweithrediad seilwaith technoleg gan gynnwys safleoedd gwaith fel seilwaith twneli, gwaith ôl-agor. Cysylltu â rhanddeiliaid eraill ynghylch ailagor lle bo'n briodol, a rheoli gwaith cynnal a chadw adweithiol ac argyfwng.

- Cynorthwyo'r Rheolwr Prif Gontractwr Cau Twnneli i ddarparu gwasanaeth cau twnneli a phentir ar yr A55 (yn ystod y dydd neu gyda'r nos) sydd wedi'i raglennu neu ar frys. Fel rhan o dîm dynodedig o Oruchwylwyr Cau Twnneli, rheoli a goruchwylio cau twnneli ar yr A55 gyda chyfrifoldebau penodol dros reoli elfennau Iechyd a Diogelwch yn unol â Rheoliadau Rheoli a Dylunio Adeiladu ar gyfer nifer o gontractwyr amlddisgyblaethol sy'n ymgymryd â gwaith cynnal a chadw yn y Twnneli

- Ymgymryd â rhaglen o archwiliadau ar y gwaith archwilio, cynnal a chadw a rhestrau cynnwys a gyflawnir gan ddarparwyr gwasanaeth allanol. Sicrhau cydymffurfiaeth â manylebau a safonau. Monitro perfformiad Darparwyr Gwasanaeth ac ymdrin â materion tanberfformio yn unol â gofynion yr Asiant.

- Ymgymryd â rôl Rheolwr Comander (Gweithredol) Efydd yr Asiant pe bai digwyddiad brys fel y diffinnir dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

- Cynorthwyo Darparwyr Gwasanaeth mewn sefyllfaoedd argyfyngus i:

  - Gweithredu cynlluniau rheoli traffig, cau twnneli a gwyro llwybrau yn briodol;
  - Gweithredu gwaith atgyweirio brys i systemau diogelwch twnnel ac isadeiledd cysylltiedig;
  - Gweithredu cynlluniau digwyddiad o wyntoedd cryfion wrth gefn priodol ar gyfer cyfarpar ITS;

- Cynorthwyo Rheolwr Gweithrediadau'r Twnnel a'r Swyddog Diogelwch Twnnel gyda rheoli risg ar rwydwaith y cefnffyrdd drwy nodi risgiau. Sicrhau bod mesurau lleihau risg priodol yn cael eu gweithredu



## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i’r swydd

**Hanfodol**

Yr ydym yn chwilio am berson sydd ar allu i weithio mewn tîm, sydd yn hunan-reolaeth ac yn gallu dangos arloesedd a chreadigrwydd. Parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd ei hun o fewn paramedrau diffiniedig, medru ysgogi ei hun yn dda ac yn ymroddedig iawn, ac sydd a sgiliau rhyngbersonol wedi’u datblygu’n dda.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

**Hanfodol**

Chwilio am berson sydd a HNC mewn Peirianneg Trydanol neu Fecanyddol neu gymhwyster cyfwerth ynghyd â phrofiad perthnasol, neu brofiad perthnasol sylweddol a chyflawni HNC mewn Peirianneg Trydanol neu Fecanyddol neu gymhwyster cyfwerth o fewn blwyddyn i'r penodiad.

## Profiad perthnasol

**Hanfodol**

Profiad o gynnal a chadw a gwella asedau technoleg priffyrdd ar rwydwaith cefnffyrdd neu briffyrdd allweddol; neu, profiad o gynnal a chadw, gwella a rheoli prif asedau mecanyddol a thrydanol mewn amgylchedd weithredol.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

**Hanfodol**

Sgiliau a gwybodaeth am weithgareddau cynnal a chadw mecanyddol, trydanol a chyfathrebu mewn amgylchedd weithredol a deddfwriaeth gysylltiol, yn gwbl wybodus o TG, sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig datblygedig, ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch a thrwydded yrru ddilys gyfredol

## Gofynion ieithyddol

**Hanfodol**

Mae’r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGChC  yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 29.5 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.